WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dr Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 494A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **E-bost** | |
| **Tudalennau** | **1** o **7** |

Annwyl Mohammed

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir Ddinbych wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Nid wyf yn gallu nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynllunio gwelliant o dan y Mesur gan nad yw'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella ar gyfer eleni

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, penododd y Cyngor Gabinet newydd. Mae cyfansoddiad y Cabinet wedi newid ond mae'n wleidyddol gytbwys o hyd, yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. Cynghorwyr Llafur sydd bellach yn ffurfio'r wrthblaid.

Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Cynllun Corfforaethol newydd ac yn pennu a all gyflawni ei saith blaenoriaeth ddrafft arfaethedig erbyn 2017. Mae Cynghorwyr yn arwain y trafodaethau hyn, sydd bellach yn destun ymgynghoriad cyhoeddus arall, ac mae'r Cyngor yn rhagweld y cytunir ar y Cynllun Corfforaethol yn ystod hydref 2012. Mae'r Cyngor yn cynnal cryn dipyn o waith ymgynghori ac ymgysylltu â thrigolion a'i staff yn cynnwys:

- Arolwg Trigolion: ymatebodd 2,256 o aelwydydd i arolwg;
- Arolwg Cyhoeddus: ymatebodd 1,228 o bobl i arolwg ar wefan y Cyngor ac mewn canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, ac ardaloedd derbyn y Cyngor;
- gweithdai gyda phobl ifanc.

Byddaf yn darparu llythyr arall erbyn diwedd Tachwedd 2012 a fydd yn asesu a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynllunio gwelliannau o dan y Mesur ac yn adolygu’r nodau (yn cynnwys dangosyddion perfformiad a thargedau ond heb fod yn gyfyngedig iddynt o gwbl) y mae'r Cyngor wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun er mwyn monitro i ba raddau y mae'n cyflawni ei amcanion gwella.

## Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol ac yn gyfyngedig iddo:

## Credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd rhesymol o ran y ddau faes ar gyfer gwella a nodwyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf.
- Mae trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus unwaith y bydd y Cyngor yn atgyfnerthu ymhellach ei drefniadau llywodraethu TGCh ac yn llwyddo i gwblhau Cam Un o'i strategaeth TGCh.

- Daeth arolygiad gan AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor yn darparu asesiad ymatebol ac amserol i'r rhan fwyaf o'r oedolion sydd ag anghenion gofal cymdeithasol a'i fod yn ymateb i'r heriau wrth weithredu strategaeth y Cyngor a'i datblygu ymhellach
- Mae Estyn o'r farn bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg o safon i blant a phobl ifanc a bod y rhagolygon ar gyfer gwella yn dda.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd rhesymol o ran y ddau faes ar gyfer gwella a nodwyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf

Cynigiais ddau beth i'w gwella yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, a nodais hefyd rai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod ac yn Atodiad 1:

- Cynigiais y dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'u heffeithiolrwydd. Cynhaliodd y Cyngor adolygiad llywodraethu corfforaethol fel rhan o'r broses o ddiweddaru ei *Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol* a chytuno arno. Nododd yr adolygiad fod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i gyflawni'r chwe egwyddor yn y fframwaith ond nododd yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau dair risg lywodraethu fawr:
  - Llywodraethu partneriaethau:
  - Llywodraethu gwybodaeth:
  - Perfformiad a datblygiad aelodau etholedig

Mae'r Cyngor yn drafftio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol newydd. Byddwn yn gwneud rhagor o waith ym mhob cyngor yng Nghymru ar lunio Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a byddaf yn llunio adroddiad cenedlaethol maes o law. Byddaf yn rhoi adborth pellach i'r Cyngor yn ddiweddarach eleni.

- Cynigiaf erbyn mis Medi 2012, y dylai'r Cyngor bennu'n fanylach sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* . Mae cyfrifoldeb rheoli o fewn y Cyngor ar gyfer *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn mynd drwy gyfnod pontio fel rhan o'r broses o ad-drefnu dyletswyddau ymhlith penaethiaid gwasanaethau'r Cyngor ac ar lefel uwch bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol, a benodwyd yn ddiweddar, yn gyfrifol am ddatblygu economaidd. Byddaf yn darparu asesiad pellach o gynnydd o ran cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn cynnwys gwerthusiad o'r canlynol:

- sut mae'r cynllun yn gweddu i raglen adfywio'r sir;
- i ba raddau y mae'r cynllun yn cadarnhau'r staff a'r adnoddau ariannol a fydd ar gael i gyflawni amcanion;
- y trefniadau ar gyfer gwerthuso cynnydd o bryd i'w gilydd.

## Mae trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus unwaith y bydd y Cyngor yn atgyfnerthu ymhellach ei drefniadau llywodraethu TGCh ac yn llwyddo i gwblhau Cam Un o'i strategaeth TGCh

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddatblygu sianeli mynediad cwsmeriaid sy'n dechrau perfformio yn dda, ond nid yw eto yn manteisio i'r eithaf ar botensial technoleg i weddnewid gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd.
- Nid yw'r trefniadau llywodraethu TGCh yn alinio'n llwyr â blaenoriaethau gwella a gweddnewid y Cyngor nac yn cefnogi'r broses o'u cyflawni ac mae gwendidau o ran y trefniadau pennu adnoddau technoleg.

## Daeth arolygiad gan AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor yn darparu asesiad ymatebol ac amserol i'r rhan fwyaf o'r oedolion sydd ag anghenion gofal cymdeithasol a'i fod yn ymateb i'r heriau wrth weithredu strategaeth y Cyngor a'i datblygu ymhellach

Cynhaliodd AGGCC arolygiad o'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal oedolion a gaiff eu cyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2012.

Mae'r prif gasgliadau fel a ganlyn:

- Mae'r model gwasanaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei alluogi i ddarparu asesiad ymatebol ac amserol i'r rhan fwyaf o oedolion sydd ag anghenion gofal cymdeithasol.
- Mae'r Cyngor yn gallu darparu tystiolaeth sylweddol o foddhad defnyddwyr gwasanaethau. Caiff arferion newydd eu cyflwyno i geisio sicrhau bod adborth defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei ymgorffori mewn ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol a'i ddefnyddio'n fwy effeithiol i lywio prosesau rheoli perfformiad a gwerthuso a datblygu gwasanaethau.
- Strategaeth y Cyngor yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol prif ffrwd i ddiwallu anghenion mewn ffordd sy'n annog annibyniaeth. Er bod gwasanaethau amrywiol yn cael eu datblygu, mae heriau o hyd mewn perthynas â meysydd arbenigol penodol, fel cynyddu taliadau uniongyrchol.

**Mae Estyn o'r farn bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg o safon i blant a phobl ifanc a bod y rhagolygon ar gyfer gwella ymhellach yn dda**

Cynhaliodd Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2012.

Mae'r prif gasgliadau fel a ganlyn:

- mae perfformiad cyffredinol disgyblion yn dda ac wedi gwella ym mhob cyfnod allweddol, yn arbennig cyfnod allweddol 4;
- mae perfformiad wedi gwella yn erbyn meincnodau disgwyliedig Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim;
- mae nifer y bobl a gaiff eu gwahardd wedi lleihau a nifer gyffredinol y dyddiau a gollir oherwydd gwaharddiad yw'r isaf yng Nghymru;
- mae gan y Cyngor drefniadau da iawn i gefnogi a herio ysgolion ac mae'n adnabod ei ysgolion yn dda iawn;
- mae cefnogaeth i wella ysgolion, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol oll yn dda;
- mae nifer yr ysgolion yn Sir Ddinbych y mae angen gwaith dilynol arnynt ar ôl arolygiad ymhlith yr isaf yng Nghymru;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflwyno ei raglen Moderneiddio Addysg;
- mae'r diwylliant o arweinyddiaeth gref iawn gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi ysgogi newid a gwelliant sylweddol ar gyflymder da;
- mae’r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion na chynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Gwilym Bury - Arweinydd Archwilio Perfformiad

## Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 | Cynnydd |
|---|---|
| C1 Fel awdurdodau eraill yng Nghymru, dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'u heffeithiolrwydd. | Cynigiais y dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'u heffeithiolrwydd. Cynhaliodd y Cyngor adolygiad llywodraethu corfforaethol fel rhan o'r broses o ddiweddaru ei *Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol* a chytuno arno. Nododd yr adolygiad fod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i gyflawni'r chwe egwyddor yn y fframwaith ond nododd yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau dair risg lywodraethu fawr:<br>• Llywodraethu partneriaethau<br>• Llywodraethu gwybodaeth<br>• Perfformiad a datblygiad aelodau etholedig<br>Mae'r Cyngor yn drafftio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol newydd. Byddwn yn gwneud rhagor o waith ym mhob cyngor yng Nghymru ar lunio Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a byddaf yn llunio adroddiad cenedlaethol maes o law. Byddaf yn rhoi adborth pellach i'r Cyngor yn ddiweddarach eleni. |
| C2 Erbyn mis Medi 2012 dylai'r Cyngor bennu sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* gan gynnwys:<br>• dangos sut mae'n gweddu i raglen adfywio'r sir;<br>• cadarnhau'r staff a'r adnoddau ariannol a fydd ar gael i gyflawni amcanion;<br>• trefniadau ar gyfer gwerthuso cynnydd o bryd i'w gilydd. | Cynigiaf erbyn mis Medi 2012, y dylai'r Cyngor bennu'n fanylach sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* . Mae cyfrifoldeb rheoli o fewn y Cyngor ar gyfer *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn mynd drwy gyfnod pontio fel rhan o'r broses o ad-drefnu dyletswyddau ymhlith penaethiaid gwasanaethau'r Cyngor ac ar lefel uwch bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol, a benodwyd yn ddiweddar, yn gyfrifol am ddatblygu economaidd. Byddaf yn darparu asesiad pellach o gynnydd o ran cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |